Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cilâ

**577 Heol Gŵyr**
**Cilâ Uchaf**
**SA2 7DR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cilâ

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Cilâ |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 126 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 94 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 17 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2002 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 26/02/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Cilâ yn amgylchedd dysgu hynod gefnogol a hapus lle mae disgyblion yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd da. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, a dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu pobl eraill. Dangosant fedrau effeithiol mewn llawer o feysydd, fel eu medrau digidol a chorfforol.

Mae staff yn gweithio gyda’i gilydd yn greadigol. Gwnânt ddefnydd buddiol o amgylchedd ysgogol yr ysgol i ddatblygu gweithgareddau dysgu diddorol sy’n dal dychymyg disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn adnabod disgyblion yn dda, ac yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn derbyn gofal yn unigol. Maent yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cysylltiadau agos â rhieni a gofalwyr, ac mae hyn yn helpu creu ymdeimlad cymunedol cytûn a chefnogol yn yr ysgol.

Mae’r pennaeth yn meithrin ac yn cynnal cymuned ysgol gynhwysol a gofalgar. Mae’n annog ac yn grymuso athrawon a staff cymorth i weithio a dysgu gyda’i gilydd. Mae hyn yn golygu bod staff sydd â chyfrifoldeb am feysydd o fewn yr ysgol, fel anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud newidiadau cadarnhaol ac yn helpu staff i ddeall systemau ac arferion newydd yn ddefnyddiol. Mae’r ethos tîm cryf yn golygu bod yr ysgol yn symud yn gadarnhaol tuag at greu cwricwlwm sy’n cyd-fynd yn dda ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r broblem yn gysylltiedig â safle'r ysgol, a nodwyd adeg yr arolygiad

A2 Canolbwyntio strategaethau monitro, gwerthuso a gwella yn graffach ar ddysgu disgyblion

A3 Gwella medrau siarad Cymraeg disgyblion

A4 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio dysgu sy'n cefnogi a herio disgyblion ar y lefel gywir yn fwy cyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymuno â’r dosbarth meithrin gyda medrau a dealltwriaeth ar lefel sy’n ddisgwyliedig am eu hoedran a’u cyfnod datblygu. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Cilâ.

Yn y dosbarth meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn dda. Er enghraifft, yn siop y dosbarth, maent yn esbonio bod eu bag siopa yn llawn, a bod angen mwy o arian arnynt i dalu. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy’r dosbarth derbyn a Blwyddyn 1, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i siarad yn hyderus. Er enghraifft, maent yn rhannu eu barn yn glir ar lyfr am greaduriaid y môr. Mae llawer ohonynt yn gweithio mewn grwpiau bach i ymgymryd â rôl gan ddefnyddio iaith briodol. Er enghraifft, defnyddiant fodel o’r Hugan Fach Goch i ddatblygu eu stori eu hunain lle mae’r blaidd yn torri i mewn i dŷ Mam-gu ac yn cuddio’i bwyd o dan y bwrdd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn meddu ar fedrau cyfathrebu da. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn aeddfed at ystod o ddibenion, gan gynnwys rhoi esboniadau clir am eu gwaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn huawdl ac yn siarad yn dda am amrywiaeth o bynciau. Maent yn mynegi eu barn yn aeddfed wrth siarad ag ymwelwyr, ac yn siarad yn feddylgar am beth sy’n eu helpu i ddysgu.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu dealltwriaeth o ychydig o ymadroddion Cymraeg syml, er enghraifft dilyn cyfarwyddiadau oedolion ac ymateb i gwestiynau sylfaenol yn briodol. Mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn mwynhau gwrando ar storïau Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae lleiafrif ohonynt yn ateb cwestiynau am storïau Cymraeg syml yn hyderus, er enghraifft defnyddio geiriau am wahanol fwydydd. Erbyn Blwyddyn 4, mae disgyblion yn ysgrifennu am eu gwyliau gan ddefnyddio patrymau brawddeg sylfaenol yn briodol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigon hyderus ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cryf o batrymau iaith sylfaenol, er enghraifft i ofyn cwestiwn neu ymateb yn dda i gwestiynau cyffredin.

Yn y dosbarth meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod ystod addas o lythrennau a’u seiniau cysylltiedig. Maent yn gwrando ar, ac yn ail-ddweud, storïau syml, fel Jac a’r Goeden Ffa, yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen â chywirdeb a rhuglder priodol. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth ddefnyddiol o seiniau a chyfuniadau ffoneg. Fodd bynnag, pan fyddant yn dod ar draws geiriau nad ydynt yn eu gwybod, nid yw lleiafrif ohonynt yn cymhwyso’r rhain, nac yn defnyddio strategaethau eraill yn dda, i ddarllen geiriau anghyfarwydd. O Flwyddyn 3 ymlaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen â rhuglder addas am gyfnodau cynaledig. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gael mynediad at ddysgu ym mhob maes o’r cwricwlwm, er enghraifft i ymchwilio i wybodaeth am greigiau. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad am eu hoff lyfrau ac awduron yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cydnabod pan fyddant yn darllen geiriau’n anghywir. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn deall yn llawn yr hyn maent wedi’i ddarllen.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y dosbarth meithrin yn defnyddio offer i greu marciau yn hyderus. Yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1, mae disgyblion yn ymgymryd â thasgau ysgrifennu annibynnol yn hyderus, fel ysgrifennu a phostio llythyrau gwellhad buan at Mam-gu. Erbyn Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol at wahanol ddibenion yn eu gwaith llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi sylfaenol, fel priflythrennau ac atalnodau llawn, yn gyson gywir. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus. Maent yn trefnu eu gwaith yn baragraffau yn dda. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o genres, ac at ystod o ddibenion, er enghraifft ysgrifennu llythyr i berswadio'r pennaeth i beidio â lleihau amser egwyl. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu i safon uchel gan ddefnyddio brawddegau cynyddol gymhleth a geirfa gyfoethog ac amrywiol i ymestyn eu storïau a'u barddoniaeth. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob amser yn cyflwyno eu gwaith yn ddigon taclus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda. Mae disgyblion iau yn didoli eitemau yn ôl nodweddion syml, er enghraifft didoli gwahanol lysiau. Maent yn cymharu hyd eitemau bob dydd, fel moron, ac yn adnabod bod y croestoriad ar ffurf siâp cylch pan fyddant wedi'u torri. Erbyn Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, mae llawer ohonynt yn parhau i ddefnyddio eu medrau mathemateg yn dda, er enghraifft tynnu llun a phlotio cyfesurynnau ar grid yn gywir, ac yn defnyddio'r rhain i ddylunio mapiau trysor fel rhan o'u testun am Fôr Ladron. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau mathemategol yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn nodi ac yn mesur cylchedd a diamedr yn gywir wrth ddylunio a chreu hetiau ar gyfer eu te parti Mad Hatter. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifiadol yn dda mewn cyd-destunau bywyd go iawn, er enghraifft i gyfrifo elw a cholled yng nghyd-destun eu gwaith yn ystod Wythnos Entrepreneuriaid. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer y gwaith trawsgwricwlaidd hwn yn gyfyngedig. Yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn, mae cyflwyniad gwaith mathemategol lleiafrif o ddisgyblion yn aml yn anniben.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau digidol effeithiol. Mae disgyblion iau yn mewngofnodi ar liniaduron yn annibynnol ac yn defnyddio amrywiaeth o apiau, fel gemau sillafu a mathemateg i'w helpu i ddysgu. Ar draws yr ysgol, maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau a chyflwyno yn ddefnyddiol i gofnodi a rhannu eu dysgu. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn mewnforio delweddau, yn defnyddio trosglwyddiadau sleid ac yn troshaenu cerddoriaeth ar gyflwyniadau i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu am leoedd pwysig yng Nghymru. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio rhaglenni codio syml i greu gemau ac yn defnyddio adnoddau ar-lein i greu cwisiau diddorol ar gyfer eu cyfoedion. Mae hyn yn eu helpu i atgyfnerthu eu dysgu eu hunain a phrofi pobl eraill am beth maent wedi'i ddysgu am destunau ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol hynod effeithiol. Yn y dosbarth meithrin, maent yn dysgu taflu a dal yn dda iawn am eu hoedran. Maent yn balansio yn ofalus ac yn gwneud cynigion da i hopian, prowlan a stompio fel anifail. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn sgipio'n fedrus ac yn dangos medrau cydsymud da, er enghraifft rhedeg â chylchau hwla o gwmpas un droed yn fedrus. Mae disgyblion hŷn yn parhau i ddatblygu eu medrau corfforol yn fuddiol. Maent yn

cymhwyso’r medrau hyn i’w gemau a gwahanol chwaraeon yn dda. Er enghraifft, maent yn bownsio peli yn fedrus ac mae ganddynt reolaeth dda o’u cyrff.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn eithriadol o dda. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn mynd ati i hyrwyddo ei gwerthoedd, fel parch a charedigrwydd, yn y dosbarth, ac wrth chwarae amser chwarae ac amser cinio. Mae bron pob un o’r disgyblion yn hyderus fod staff yn gwrando ar eu barn, ac o ganlyniad, yn teimlo eu bod yn eu deall ac yn poeni amdanynt.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu’n gyflym ac yn dda i ymgymryd ag arferion dyddiol, ac yn dechrau tasgau heb oedi. Mae bron pob un ohonynt yn dangos lefelau uchel o barch at ei gilydd ac at oedolion bob amser. Yn ystod gwersi, maent yn gwrando ar athrawon ac ar eu cyfoedion, gan rannu syniadau’n fuddiol. Maent yn parchu bod barn pobl eraill yn gallu bod yn wahanol, er enghraifft wrth ystyried manteision ac anfanteision defnyddio tanwyddau ffosil.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gref o sut i fod yn iach. Mae disgyblion hŷn yn esbonio’n fanwl bwysigrwydd bwyta diet cytbwys, sy’n cynnwys ffrwythau a llysiau, gydag ychydig o ‘ddanteithion melys’ achlysurol yn unig. Mae llawer o ddisgyblion yn nodi pwysigrwydd ymarfer corff ac aros yn heini. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel ar-lein a sut i ddefnyddio dyfeisiau, fel ffonau symudol, yn synhwyrol. Mae disgyblion hŷn yn deall pwysigrwydd peidio â rhannu gwybodaeth bersonol gyda phobl eraill, a chadw cyfrineiriau’n ddiogel. Maent yn cydnabod y gall seiberfwlio fod yn broblem ac yn gwybod beth i’w wneud os ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu bwlio ar-lein.

Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu’r agweddau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus. Maent yn dangos diddordeb ac wedi eu cymell i ddysgu, ac yn y rhan fwyaf o achosion, yn canolbwyntio’n dda i gwblhau tasgau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn disgrifio beth mae’n ei olygu iddynt fod yn uchelgeisiol neu fod yn ddinesydd sy’n foesegol wybodus. Er bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn grwpiau disgyblion, fel bod yn rhan o’r cyngor eco neu’r grŵp sy’n hyrwyddo dealltwriaeth o hawliau plant, mae’r rhain yn parhau i fod wedi’u cyfyngu i grwpiau dosbarth, ac felly nid yw eu cyfleoedd i fod yn ddylanwadol ar draws yr ysgol wedi eu datblygu’n gryf eto. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 a Blwyddyn 5 yn wybodus am erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP), ond nid oes gan ddisgyblion eraill yr un manylder o ddealltwriaeth.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn awyddus i ymgymryd â heriau newydd, gan ddefnyddio ystod o dechnegau dysgu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn esbonio sut maent yn defnyddio eu gwybodaeth flaenorol neu’n gofyn i ffrind, cyn oedolyn, a sut mae hyn yn eu helpu i ddyfalbarhau a dod o hyd i atebion pan fyddant yn wynebu anawsterau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd yn dda â thasgau ac yn gweithio’n effeithiol mewn grwpiau bach, parau ac yn annibynnol. Pan fyddant yn gweld dysgu yn ddiddorol ac ysgogol, maent yn ymgysylltu’n dda ac yn gwneud cynnydd da â datblygu eu dealltwriaeth a’u medrau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar ac ysgrifenedig. Bron ym mhob dosbarth, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o’r rôl

y gallant ei chwarae mewn gwerthuso eu dysgu eu hunain, neu ddysgu eu cyfoedion. O ganlyniad, maent yn gwybod sut i wneud gwelliannau i'w gwaith, ac mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1, mae disgyblion yn defnyddio rhestr wirio syml 'Rydw i'n dweud', 'Mae fy ffrind i'n dweud' i asesu pa mor dda maent wedi ysgrifennu set o gyfarwyddiadau.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol, gan gynnwys ystod o wythnosau thema a digwyddiadau dathlu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda, fel wythnos her ac wythnos iaith. Ceir cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion wneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Er enghraifft, ar ddechrau pob thema, mae disgyblion yn trafod gyda'r athro beth hoffent ei ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn hyn yn frwdfrydig ac yn mwynhau dewis rhai o'r gweithgareddau maent yn eu gwneud. Mae athrawon yn gwneud nodiadau da o'r trafodaethau hyn ac yn aml yn eu cyflwyno'n ofalus yng ngwaith y dosbarth, fel dylunio gardd yn gysylltiedig â llyfr Alice's Adventures in Wonderland. O ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau eu dysgu, ac yn ymroi iddo.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at weithredu cwricwlwm sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae gan bob un o'r athrawon ymwybyddiaeth dda o ddiwygio'r cwricwlwm, a cheir dealltwriaeth glir o fewn yr ysgol o sut mae'r cwricwlwm yn cyd-fynd â'i gilydd fel taith ddysgu gydlynus. O ganlyniad, mae arweinwyr ac athrawon yn datblygu profiadau dysgu sy'n cyd-fynd â dibenion y cwricwlwm a'r meysydd dysgu, ac yn ystyried syniadau disgyblion yn dda. Ceir cyfleoedd effeithiol ar draws y cwricwlwm sy'n defnyddio'r ardal ysgogol yn yr awyr agored i gefnogi anghenion datblygiadol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio'r mannau difyr a'r adnoddau yn yr awyr agored ar gyfer creu marciau ac ar gyfer gweithgareddau creadigol yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r llwyfan yn yr awyr agored i actio eu syniadau stori yn frwdfrydig.

Mae ystod eang o brofiadau yn galluogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a'u medrau digidol yn addas ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau digidol i atgyfnerthu eu dysgu mewn gwyddoniaeth yn greadigol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd bob amser i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau rhifedd ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn golygu nad yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ymarfer a datblygu medrau mewn cyd-destunau go iawn, fel medrau mesur.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn addas, ar y cyfan. Ceir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddarllen testunau syml gydag oedolion ac ysgrifennu yn Gymraeg, gyda chymorth. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a defnyddio eu medrau llafaredd Cymraeg yn y dosbarth a thu hwnt. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion, ac yn enwedig y rhai uwchlaw

Blwyddyn 3, yn defnyddio nac yn galw ymadroddion a brawddegau sylfaenol i gof yn dda, ac nid ydynt yn siarad yn ddigon hyderus.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio technoleg yn greadigol i gefnogi dysgu disgyblion. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, maent yn defnyddio meddalwedd gydweithredol amser real sy’n galluogi disgyblion i rannu eu rhagfynegiadau gyda phobl eraill yn fuddiol. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy’n datblygu disgyblion iau fel dysgwyr annibynnol yn briodol, er enghraifft i greu ac actio storïau yn y gornel gartref. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr athrawon yn cynllunio digon o weithgareddau dysgu sy’n ystyried cyfnod datblygu disgyblion yn ddigon cyson. Mae hyn yn golygu nad yw tasgau a gweithgareddau bob amser yn herio nac yn cynorthwyo dysgwyr ar y lefel gywir.

Mae pob un o’r athrawon yn rhoi adborth clir a buddiol i ddisgyblion mewn gwersi. Maent yn nodi’r hyn mae disgyblion yn ei wneud yn dda a ble gallant wneud gwelliannau i’w gwaith. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy’r ysgol, mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion mewn gwerthuso eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion yn fuddiol. Mae disgyblion yn defnyddio’r cyfleoedd hyn yn ystyriol i helpu nodi ble mae gwaith yn effeithiol, ac yn aml yn rhoi ‘dymuniad’ i ddisgyblion eraill i ddangos iddynt ble gallent wneud yn well. O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn gwneud gwelliannau buddiol i’w gwaith. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel bob amser o safon y modd y mae disgyblion yn cyflwyno eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae lefel y gofal, y cymorth a’r arweiniad ar gyfer disgyblion a’u teuluoedd yn hynod effeithiol. Mae’r ysgol yn cynnal ffocws parhaus ar gynhwysiant ac ar wella lles pob un o’r disgyblion. Mae rhieni’n canmol y cymorth emosiynol a phersonol sy’n cael ei ddarparu gan yr ysgol iddyn nhw yn ogystal â’u plant. Caiff staff allweddol eu hyfforddi i nodi a chynorthwyo disgyblion â’u lles o oedran ifanc. Er enghraifft, mae staff wedi cael hyfforddiant emosiynol, ac mae hyn yn helpu disgyblion iau i ddeall eu hemosiynau a dysgu sut i hunanreoli eu hymddygiadau. Mae gan athrawon a staff cymorth berthnasoedd da iawn â disgyblion a rhieni, ac maent yn rhannu unrhyw bryderon yn brydlon i sicrhau bod problemau’n cael eu datrys yn gyflym.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ei harwain a’i rheoli’n dda. Mae gan yr arweinydd ADY ddealltwriaeth glir o ddiwygiadau cenedlaethol ac mae wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau pontio esmwyth i’r systemau newydd. Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol i nodi a diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae cyfarfodydd rheolaidd ynghylch cynnydd disgyblion yn rhoi ystyriaeth dda i ystod eang o wybodaeth ddefnyddiol, ac maent yn canolbwyntio’n fuddiol ar anghenion dysgu unigol disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y meysydd lle mae disgyblion angen cymorth yn cael eu nodi’n glir a’u monitro’n llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da tuag at eu nodau dysgu unigol. Mae gan ddisgyblion ADY broffil defnyddiol sy’n amlinellu eu diddordebau, sut maen nhw’n hoffi cael eu cynorthwyo i ddysgu a’r pethau maent yn gweithio i’w gwella. Mae hyn yn helpu personoli’r cymorth ar gyfer disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol a moesol disgyblion. Mae gweithredoedd addoli ac amrywiaeth o ymwelwyr yn ymestyn y ddarpariaeth hon yn briodol. Er enghraifft, mae ymwelwyr o eglwys leol yn cyflwyno sesiynau drama wedi'u seilio ar storïau traddodiadol y Beibl. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ddiwrnodau dathlu ac wythnosau ffocws bob hanner tymor i atgyfnerthu eu pwyslais ar CCUHP, ac ar werthoedd yr ysgol ei hun. Mae'r gwerthoedd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at bob un o themâu'r ysgol. Er enghraifft, yn thema 'Edrychwch pa mor bell rydym ni wedi dod!', mae disgyblion yn ystyried gwerthoedd parch, heddwch a rhyddid.

Ar draws y cwricwlwm, mae amrywiaeth eang o weithgareddau i helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, a'u lle ynddi. Er enghraifft, yn yr wythnos Gymreig, mae plant yn profi cerddoriaeth a dawnsio Cymreig traddodiadol. Maent yn astudio hanes Dydd Gŵyl Dewi a pham mae'n parhau i fod mor bwysig yn niwylliant Cymru. Trwy'r thema ysgol gyfan 'Dwylo o Gwmpas y Byd', mae disgyblion yn archwilio eu hardal mewn perthynas â Chymru. Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd i ddysgu am fywydau pobl ysbrydoledig, fel Malala Yousafzi, yn rhan o'u gwaith ar amrywiaeth.

Mae arweinwyr a staff yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu a chynnal twrnamaint criced blynyddol. Mae disgyblion yn ymweld â lleoedd, fel oriel gelf, i gymryd rhan mewn gweithdy morlun yn gysylltiedig â'u gwaith yn y celfyddydau mynegiannol. Ceir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion wylio digwyddiadau perfformio. Er enghraifft, maent yn ymweld â theatrau lleol amrywiol i wylio cynyrchiadau fel 'The Jungle Book'. Mae'r ysgol wedi gweithio gydag arlunydd preswyl i greu Coeden Ddymuniadau a cherfluniau pren pwrpasol eraill i wella'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored.

Mae athrawon yn nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb a chynhwysiant a datblygu eu parch at bobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi creu cyflwyniadau am eu hanawsterau dysgu eu hunain ar gyfer gwefan yr ysgol i hyrwyddo dealltwriaeth ar draws y gymuned, ac maent yn ysgrifennu am fodelau rôl ysbrydoledig, fel Ellie Simmonds, a gymerodd ran yn y Gemau Paralympaidd. Hefyd, mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi ysgrifennu comics ar gyfer disgyblion iau i'w helpu i ddeall am awtistiaeth.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf, ac mae pob un o'r staff yn deall yn dda beth yw eu rolau o ran cadw disgyblion yn ddiogel. Yn y rhan fwyaf o agweddau, mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion. Fodd bynnag, nododd y tîm arolygu fod un mater yn gysylltiedig â safle'r ysgol sydd angen sylw.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yr arwain yr ysgol yn ddiwyd ac yn ystyriol. Mae'n creu ethos hynod gadarnhaol lle mae pob un o'r disgyblion a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd fel un tîm. O ganlyniad, mae staff yn hyderus i rannu eu meddyliau a'u syniadau, ac yn barod i fwrw ymlaen â mentrau a strategaethau newydd. Er enghraifft, trwy weithio gyda'i gilydd, mae arweinwyr a staff wedi cymryd camau cadarnhaol i ddatblygu cwricwlwm difyr yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae staff yn cymryd rhan yn

adeiladol mewn prosesau sy'n helpu arwain eu gwaith, fel rheoli perfformiad, ac mae hyn yn helpu cefnogi a datblygu eu harferion yn dda.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i waith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n dda gyda'r pennaeth i sicrhau bod yr ysgol yn amgylchedd dysgu effeithiol. Maent yn cael diweddariadau meddylgar gan y pennaeth ar waith yr ysgol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ystyriol i holi arweinwyr yr ysgol yn gefnogol am lawer o'u gweithredoedd. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cryf o flaenoriaethau gwella'r ysgol i herio arweinwyr yn y maes hwn fel ffrindiau beirniadol.

Mae arweinwyr yn monitro a defnyddio cyllid yr ysgol yn ystyriol. Er enghraifft, maent wedi defnyddio cyllid i greu amgylchedd cyffrous yn yr awyr agored sy'n darparu profiadau dysgu ysgogol ac yn darparu mannau difyr lle gall disgyblion chwarae. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio grantiau, fel y grant amddifadedd disgyblion, yn briodol. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio'r grant hwn ar strategaethau i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn briodol.

Mae arweinwyr wedi creu calendr clir a manwl sy'n helpu arwain gwaith hunanwerthuso a gwella'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ystod briodol o eang o weithgareddau monitro y mae arweinwyr ac athrawon yn cymryd rhan ynddynt, fel craffu ar lyfrau disgyblion a galw heibio gwersi, lle mae athrawon yn ymweld â dosbarthiadau i werthuso agwedd benodol ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio deilliannau'r gweithgareddau hyn yn briodol i helpu nodi blaenoriaethau gwella. Maent yn gosod strategaethau a mentrau sy'n addas ar y cyfan i helpu mynd i'r afael â'r diffygion hyn a nodwyd. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn effeithiol â materion yn gysylltiedig â lles disgyblion a ddaeth yn sgil y pandemig, ac o ganlyniad, mae lles disgyblion yn gryf erbyn hyn. Fodd bynnag, nid yw mentrau monitro a gwella bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn nysgu disgyblion. O ganlyniad, weithiau, mae gan arweinwyr ac athrawon farn rhy gadarnhaol am ychydig o feysydd dysgu sydd angen eu gwella.

Mae arweinwyr yn cynorthwyo staff i ymgymryd ag ystod addas o ddysgu proffesiynol sy'n aml yn cysylltu'n fuddiol â chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella. Maent yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n fuddiol ar helpu staff i wella meysydd, fel lles disgyblion, a chynorthwyo'r rhai ag anghenion ychwanegol. Er enghraifft, mae dysgu proffesiynol ar gyfer y cydlynydd anghenion ychwanegol wedi arwain at systemau hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion a nodwyd, ac mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gref o sut i gynorthwyo dysgwyr yn eu dosbarthiadau. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â darparwyr eraill, fel sefydliadau sy'n darparu addysg gychwynnol athrawon. Mae hyn yn helpu cefnogi datblygiad athrawon newydd ac yn helpu datblygu eu harfer broffesiynol yn effeithiol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/08/2022